BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU

Penodi aelodau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Adran yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru yn recriwtio aelodau newydd i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. .

Y Bwrdd yw llais y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'n rhoi cyfeiriad, yn annog rhwydweithio ac yn rhannu gwybodaeth hanfodol. Hefyd, mae'n darparu ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol o gynnig cyngor i'r Llywodraeth.

Rydym yn chwilio am aelodau sydd â phrofiad helaeth o'r sector bwyd a diod yn meysydd rheoli busnes, marchnata a brandio, adwerthu a gwasanaethau bwyd gan gynnwys twristiaeth bwyd, datblygu masnach mewn marchnadoedd domestig ac allforio, sgiliau'r diwydiant bwyd a chynhyrchiant, trosglwyddo gwybodaeth, ymchwil a datblygu ac arloesi.

Bydd yr aelodaeth yn cynrychioli'r gadwyn fwyd a gweithgynhyrchu yn gyfan. Bydd gofyn i'r aelodau a benodir fod yn brofiadol a gwybodus yn un neu fwy o'r is-sectorau bwyd a diod, fel llaeth, cig coch, dofednod, cynnyrch wedi'i bobi, cynnyrch organig, garddwriaeth, diodydd, pysgodfeydd a dyframaethu.

Mae’n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei busnes, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu ymlyniad crefyddol neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu, a chaiff y penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

Bydd swydd aelod yn para pedair blynedd, ni fydd tâl er yr ad-delir treuliau rhesymol, a bydd disgwyl ichi fod ar gael am hyd at wyth niwrnod y flwyddyn mewn mannau amrywiol yng Nghymru ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn aelod, dywedwch wrthym am eich profiadau a'ch arbenigeddau yn y sector bwyd a diod. Er enghraifft, disgrifiwch:

- eich cysylltiad â'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru neu le arall
- eich cysylltiad â mudiadau neu grwpiau buddiant rhanddeiliaid cysylltiedig
- eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd yng Nghymru neu'r DU
- eich dealltwriaeth o'r problemau a wynebir gan Gymru, gan roi sylw i effaith polisïau Cymru.

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus neu os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â Desg Gymorth Gwasanaethau a Rennir ar 03000 255454 5454 neu ebostiwch penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 29 Mawrth 2020. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais a ddaw i law wedi’r dyddiad hwn. Rydym yn disgwyl cynnal cyfweliadau ym mis Mehefin 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch 2019 03000255454.

**DIVERSITY MEDIA CHANNEL** (Saenseg yn unig)
-------------------
https://www.diversityjobsite.co.uk/jobs/115696161/Member-Food-Advisory-Panel-Wales/

**DISABILITY MEDIA CHANNEL** (Saenseg yn unig)
-----------------------
https://www.disabilityjobsite.co.uk/job/15696735/Member-Food-Advisory-Panel-Wales

**BAME MEDIA CHANNEL** (Saenseg yn unig)
-----------------------
https://www.ethnicjobsite.co.uk/job/15695208/MemberFoodAdvisoryPanelWales/

**LGBT EQUALITY CHANNEL** (Saenseg yn unig)
------------------
https://www.lgbt.media/job/4156/Member-Food-Advisory-Panel-Wales

**GENDER EQUALITY MEDIA CHANNEL** (Saenseg yn unig)
-----------------------
https://www.overlookedtalent.co.uk/job/1778/Member_Food_Advisory_Panel_Wales